Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP & REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 13 TACHWEDD 2025 am 10.30 o'r gloch yb** | **THURSDAY, 13 NOVEMBER, 2025 at 10.30 a.m.** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/The Independent Group**

Gwilym O Jones (Is-gadeirydd/Vice-Chair)

**Plaid Lafur / Wales Labour Party**

Pip O'Neill

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees (Cadeirydd/Chair), Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Douglas M Fowlie, Derek Owen, Liz Wood

Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams -(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church) Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights) Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

*Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2025.

4 **CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION : FFRAMWAITH AR GYFER GWERTHUSO, GWELLA AC ATEBOLRWYDD** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

5 **ADRODDIAD CYNNYDD : PANEL SGRIWTINI ADDYSG** (Tudalennau 17 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2025/2026** (Tudalennau 25 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025

**PRESENNOL:**

Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Non Dafydd, Douglas Massie Fowlie, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams and Liz Wood.

**Aelod Portffolio**

Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol.

**YN BRESENNOL:**

Prif Weithredwr,
Pennaeth Democrataidd,
Swyddog Sgriwtini (EA),
Swyddog Cefnogi Polisi a'r Gymraeg (MT),
Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor - Gweddarlledu (FT)

**YMDDIHEURIADAU:**

Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig
Mrs Wenda Owen - Yr Eglwys yng Nghymru
Ms Kathryn Seeney – Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd
Ms Christina Williams – Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY

Dirprwy Prif Weithredwr
Aaron C. Evans
Ned Michael
Christian Branch

**WRTH LAW:**

**Aelodau Portffolio**

Cynghorydd Gary Pritchard – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio dros Ddatblygu Economaidd (eitem 4)
Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio dros Hamdden, Twristiaeth a Morwrol.
Cynghorydd Dyfed W Jones – Aelod Portffolio dros Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio dros Gynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd.
Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai
Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg

Dafydd Gruffydd - Menter Môn (ar gyfer eitem 4)

Elen Hughes - Menter Môn (ar gyfer eitem 4)

Ms Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (ar gyfer eitem 5).
Elliw Llŷr - Rheolwr Gwasanaethau Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi (ar gyfer eitem 5).

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan diddordeb personol sydd ddim yn rhagfarnol gan ei bod yn Rheolwr Busnes 'Bwyd Da Môn' sydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Menter Môn (eitem 4).

Bu i'r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol ond dim rhagfarnol gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd (eitem 5).

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Medi 2025 yn gywir.

**Camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfod 12 Chwefror 2025:-**

**Gweithred:** Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i nodi bod angen darparu cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

**Diweddariad:** Derbyniwyd ymateb yn ddiweddar gan ysgrifennydd y cabinet dros addysg yn tynnu sylw at yr ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) trwy gyllid cynaliadwy, cefnogaeth i'r gweithlu, a digwyddiadau sydd wedi'u hanelu at addysg gynhwysol, gan gynnwys mwy o gyllid ar gyfer Cydlynwyr ADY, cwnsela ysgolion, a mentrau iechyd meddwl. Mae hefyd yn cydnabod heriau cyfredol megis pwysau cyfreithiol, straen ar y gweithlu, a chymhwyso anghyson o'r fframwaith ADY, gyda chamau'n cael eu cymryd i wella eglurder, hyfforddiant, a chapasiti rhanbarthol, gan gynnwys cefnogaeth i raglen seicoleg addysgol newydd ym Mhrifysgol Bangor.

**CYTUNWYD i atodi'r llythyr i gofnodion cyfarfod heddiw.**

## 4 PARTNERIAETH STRATEGOL - MENTER MÔN

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr ac Elen Hughes, Cyfarwyddwr Prosiect – Menter Môn i'r cyfarfod i gyflwyno trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan Fenter Môn.

Fel wnaeth Arweinydd y Cyngor, fel y deilydd portffolio perthnasol, gyflwyno'r eitem a throsglwyddo i swyddogion Menter Mon. Dywedodd Mr Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr fod Menter Môn wedi ei sefydlu gan y Cyngor Sir yn 1995 ac eleni mae'r cwmni yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 mlwydd oed. Yn 1996 cafodd penderfyniad ei wneud i'w sefydlu fel cwmni 'nid er elw' i ddarparu rhaglen LEADER yr UE, oedd yn ceisio datblygu atebion i'r heriau'n wynebu ardaloedd gwledig.

Mae'r fenter wedi esblygu dros y blynyddoedd, gan gyflawni prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol, ond mae amrywiaeth a phwyslais y gwaith ar Ynys Môn wedi aros yn gyson. Maent erbyn hyn yn cyflogi oddeutu 80 aelod o staff gyda'r oed cyfartalog yn 35. Mae gwerthoedd y cwmni wedi aros 'run fath. Mae'u blaenoriaeth wedi'i roi i ddatblygu potensial er mwyn cryfhau'r economi a'r diwylliant. Canolbwyntiai'r cwmni ar dri phortffolio penodol, sef Y Gymuned, Yr Economi ac Egni. Maent yn canfod, creu a gweithredu cyfleoedd i gefnogi a datblygu pobl, gryfhau'r economi, wella'r amgylchedd a bywiogi eu diwylliant.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y berthynas rhwng Menter Môn a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cryfhau. Mae cyfarfodydd cyson yn cael eu cynnal gyda Phrif Weithredwr y Cyngor, ac mae Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn aelodau ar fwrdd Menter Môn.

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau trafod a ganlyn gan y Pwyllgor:

**Gofynnwyd cwestiynau ynghylch effaith ansicrwydd cyllid cyhoeddus (grantiau) ar allu'r sefydliad i gyflawni ei flaenoriaethau/amcanion allweddol.**

- Gofynnodd Cynghorydd Margaret Roberts o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllid cyhoeddus, pa effaith mae hyn yn ei gael ar allu Menter Môn i gyflawni ei phrif flaenoriaethau a'i hamcanion? Atebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr wrth ddweud fod llawer o raglenni cynlluniau grantiau mawr ar gael oddeutu 10 mlynedd yn ôl, erbyn hyn mae'r arian mwy ansicr gyda chynlluniau cymunedol. Nid ydynt yn drawsnewidiol i'r gymuned ond yn cadw'r olwyn i droi. Disgwyliai'r fenter i gael gweld be ddigwyddai gyda Balchder Bro. Dywedodd y Prif Weithredwr nid yw'n tanseilio faint o waith sydd yno i'r corff weithio drwy'r gwahanol weithdrefnau cyllid, mae'n newid yn aml. Mae sefydlogrwydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i allu prosiectau cyfalaf er mwyn eu gwireddu. 5 miliwn oedd dyraniad Gronfa Ffyniant Lleol Ynys Môn dros y 4 mlynedd diwethaf (500 miliwn i Gymru gyfan). Yn anffodus mae'n edrych fel bod llai o gyllid grant am fod ar gael yn y dyfodol sydd yn ei gwneud yn hollbwysig i ganolbwyntio ar iaith, ynni a bywyd gwyllt.
- Cyfeiriodd Cynghorydd Gwilym Jones at waith aruthrol cyn-gyfarwyddwr Menter Môn, Gerallt Llywelyn. Gofynnodd pa gyfran o'r cyllid sydd yn cael ei wario'n Sir Fôn, a faint sydd yn cael ei wario dros y bont? Atebodd Dafydd Gruffydd fod rhai cynlluniau yn berthnasol i'r ddwy sir, a rhai cynlluniau yn berthnasol i un sir, mae'n rhaid adrodd yn union beth sydd yn cael ei wario yn lle i'r cyllidwyr. Ar adegau mae amheuaeth fod arian Ynys Môn yn cael ei

wario dros y bont, ac weithiau mae amheuaeth i'r gwrthwyneb hefyd, cadarnhaodd nid yw hynny'n wir. Os bysai'r cwmni dim ond wedi parhau i weithio ym Môn yn unig, efallai ni fysai Menter Môn bodoli heddiw. Budd i gael cwmni mentrus gyda 80 o bobl ifanc yn gweithio yno.

- Diolchodd Cynghorydd Douglas Fowlie i Dafydd Gruffydd am ei gyflwyniad. Dywedodd ei fod yn cynrychioli Cyngor Cymuned Aberffraw a bod hanes fod Menter Môn wedi gwerthu Cegin Llys Llywelyn i gyllido diffyg arian mewn pensiynau. Holodd pa wir sydd yn hynny, a pha sicrwydd sydd yno i sicrhau na fydd Menter Môn yn gwerthu asedau cymunedol i gyllido unrhyw ddiffyg eto? Cadarnhaodd Dafydd Gruffydd fod Cegin Llys Llywelyn wedi'i werthu nôl yn 2013 dan arweiniad Gerallt Llywelyn Jones, gan ei fod yn ased heb ddefnydd. Cawson gyllideb gan Ewrop i'w adnewyddu i fod yn fusnes lletygarwch a thŷ golchi, ac mi redwyd am 10 mlynedd. Y teimlad oedd nad Menter Môn oedd y cerbyd gorau i redeg y fath yno o sefydliad felly cafodd ei werthu a defnyddiwyd rhan o'r arian i gychwyn y Prosiect Morlais (oddeutu 100 mil). Atgyfnerthodd fod Menter Môn yn gwmni dielw sydd yn nofio mewn dyfroedd eithaf heriol, yn sicr ni chafodd ei wario ar ddiffyg pensiynau. Gwaith Gerallt Llywelyn Jones yn glod i Ynys Môn ac mae wedi gwireddu rhywbeth anhygoel.

**Gofynnwyd cwestiynau ynghylch monitro datblygiadau, cyflawniadau a heriau allweddol ers i Fenter Môn ymddangos o flaen y Pwyllgor Sgriwtini ddiwethaf ym mis Hydref 2024.**

- Gofynnodd Cynghorydd Euryn Morris pa fesurau neu ddangosyddion perfformiad sydd ar waith i asesu effaith gymdeithasol ac economaidd prosiectau Menter Môn ar gymunedau'r ynys? Pa gamau mae Menter Môn yn cymryd i gadw staff profiadol a denu staff newydd? Dywedodd Dafydd Gruffydd fod yno fynegeion perfformiad allweddol gyda phob cynllun a'u bod yn casglu ac yn adrodd ar rheini. Hwn ar y rhestr 'i wneud' er mwyn arddangos sut mae Menter Môn yn cyfoethogi Ynys Môn. O ran cadw a denu staff, teimlai eu bod wedi proffesiynoli wrth recriwtio aelod staff Adnoddau Dynol i dynhau polisïau a phrosesau.
- Gofynnodd Cynghorydd Non Dafydd pa gamau mae Menter Môn yn ei gymryd i fynd i'r afael a'r her o gadw staff profiadol a denu doniau newydd i'r sefydliad? Atebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr eu bod eisiau cyfleu fod y fenter yn le difyr i weithio gyda digon o amrywiaeth yn y gwaith. Telerau da iawn ar gael ar gyfer aelodau staff gyda swm cadarnhaol o bobl yn cael eu cyfweld am y swyddi.
- Yn gysylltiedig gyda'r Hwb Hydrogen, gofynnodd y Cynghorydd Pip O N'eill pa heriau allweddol bydd Menter Môn yn eu hwynebu wrth symud ymlaen. Dywedodd Dafydd Gruffydd bod achos busnes drafft ac achos busnes terfynol i'w orffen, a bod angen arwyddo cytundeb gyda 'EDF Dynamics'. Dim yn cael arian i wneud y gwaith felly mae'r arian yn gyfalaf i gyd. Her i ariannu'r holl waith paratoi.
- Dywedodd y Cynghorydd Ken Taylor ei bod hi'n braf gallu gweld y fenter yn dathlu ei holl lwyddiant. Nododd fod y Cyngor Sir wedi cyflogi 4 o fyfyrwyr ifanc a gofynnodd a yw hynny'n rhywbeth mae Menter Môn yn ei gynnig? Ymatebodd Dafydd Gruffydd fod y cynllun Llwyddo'n Lleol yn rhywbeth sydd yn agos iawn at eu calonnau. Nid yw'r math o waith mae'r sefydliad yn ei

wneud ar hyn o bryd yn cynnig ei hun i brentisiaethau. Llawer o waith wedi'i wneud efo Morlais wrth ymgysylltu gyda'r bobl ifanc, efallai bydd gwaith ar eu cyfer yn y dyfodol. Pwysig nodi efo cynlluniau ynni, cynlluniau adfywio ydyn nhw. Cadw'r bobl ifanc yn yr ardal a gallu cynnal yr iaith Gymraeg.
- Nododd y Cadeirydd fod cysylltiadau cryf amlwg strategol rhwng Menter Môn a'r Cyngor, pryderodd nad oedd gymaint o gysylltiad rhwng Menter Môn a'r wardiau. Efallai angen ffurfioli'r broses. Atebodd Elen Hughes fod cyfarwyddyd i aelodau staff Menter Môn i ymgysylltu gydag Aelodau Lleol pan mae gweithgareddau yn digwydd, yn enwedig gyda Balchder Bro. Ar hyn o bryd yn gweithio gyda 30 o leoliadau ar draws yr ynys. Dim bob amser yn monitro'r cysylltiadau gyda'r aelodau ond yn hapus i ystyried gwneud hynny ac adrodd yn ôl. Gwerthfawrogodd bod cryfhau cysylltiadau yn fudd i'r fenter.

**Gweithred 1**:
Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y broses gydweithio rhwng Menter Môn ac Aelodau Lleol i gryfhau a ffurfioli'r broses, gan nodi meysydd i'w gwella.

- Hoffai Cynghorydd Gwilym Jones ddiolch am y wybodaeth a rannwyd am Barc Solar Traffwll ac am y gwaith rhagorol oed-gyfeillgar, Balchder Bro sydd yn cael ei wneud. Cyfeiriodd at y Parti Paned yng Nghanolfan Glanhwfa a'r digwyddiadau Heneiddio'n Dda dros y gaeaf, dywedodd heb y cyd-weithio gyda Menter Môn ni fysai hynny yn gallu digwydd.
- Cynghorydd Non Dafydd yn ymwybodol fod yno deimladau gwahanol ynglŷn â solar ym Môn. Dywedodd mai rhai o'i phryderon oedd y gweledadd a'r swyddi, gofynnodd sut mae modd argyhoeddi pobl Bryngwran a Caergeiliog ei fod yn beth da fod Menter Môn yn ei ddatblygu i'r ardal a'r bobl? Atebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr wrth ddweud fod Traffwll wedi cael caniatâd cynllunio a bod arian wedi'i wario, felly yn bendant am ddigwydd. Cais wedi'i wneud iddynt werthu'r Parc i Fenter Môn fel bod y buddion yn aros yn lleol. Derbyn pwynt o ran swyddi, ond yn beth da os oes modd defnyddio'r arian. Sgwrs i'w gael efo aelodau lleol ynglŷn sut fysai'n edrych o ran model.
- Credodd Cynghorydd Douglas Fowlie dylai cynghorwyr gymryd cyfrifoldeb os ydynt angen rhywbeth wedi'i wneud yn eu maes eu hunain. Gofynnodd beth hoffai Menter Môn weld gan gynghorwyr i wneud y berthynas yn un cryfach? Atebodd Dafydd Gruffydd efallai ei bod hi'n fater o godi'r ffôn neu yrru e-bost. Mae croeso i unrhyw un gysylltu ag ef neu unrhyw aelod staff. Ychwanegodd Elen eu bod wrthi'n trefnu cyfres o gyfarfodydd wyneb i wyneb gyda phob ward. Gwerthfawrogai'r cydweithrediad er mwyn symud ymlaen gyda rheini.
- Dymunodd Cynghorydd Gary Pritchard egluro ychydig o bwyntiau oedd wedi codi yn ystod y drafodaeth. Dywedodd ei fod yn ymwybodol eu bod yn cael llai o arian eleni nag llynedd, ac yn edrych fel eu bod am gael llai eto blwyddyn nesaf. Mae'n her sydd yn cael ei drafod yn gyson gyda Dafydd ag Elen â'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r elfen gymunedol yn hollbwysig. Fel rhan o'i rôl fel yr Arweinydd ac fel Deilydd, cydnabyddir fod yno sawl fudd i'r fenter sydd ddim yn cael eu cofnodi o dan y mynegeion perfformiad allweddol. Mae yno her ariannol ond angen canu clodydd Menter Môn. Hoffai ddiolch yn fawr iddynt am eu holl waith ac am greu gwir wahaniaeth i Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad a’r cynnwys yn gynwysedig.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol bod hi’n statudol fod Partneriaeth Diogelwch yn bodoli o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998. Mae aelodau’r bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Bwrdd Iechyd a’r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae cyfrifoldebau a meysydd arbennig yn cynnwys trosedd ac anrhefn, camddefnyddio sylweddau, lleihau troseddu, trais difrifol ac yn hynod o bwysig comisiynu adolygiadau lladdiadau domestig. Maent yn atebol ac yn cydweithio gyda’r bwrdd rhanbarthol Gogledd Cymru sydd yn cyfarfod yn chwarterol.

Cychwynnodd Daron Owens drwy grynhoi’r prif bwyntiau'r adroddiad. Teimlai ei fod yn bwysig nodi eu bod ddim yn derbyn cyllid parhaol i gomisiynu prosiectau na gwasanaethau yn uniongyrchol. Yr unig gomisiynu yw ar gyfer adroddiadau llofruddiaeth ddomestig gan nid oes arian yn cael ei ddyrannu yn barhaol i ddiogelwch cymunedol. Mae yno bwyslais ar beth gaiff ei wneud mewn partneriaeth. Gweithiai’r tîm yn agos gyda bwrdd rhanbarthol Gogledd Cymru gan mai hwythau sydd yn gosod blaenoriaethau ar gyfer atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Llawer o waith wedi mynd mewn i barhau ar y strategaeth trais difrifol Gogledd Cymru. Wedi bod yn rhan o’r bwrdd llywio rhanbarthol dros y 11 mis diwethaf. Derbyniai’r tîm gyllid gan y Swyddfa Gartref yn flynyddol sydd yn eu galluogi i barhau gyda’r gwaith rhanbarthol ataliol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol:-

**Gofynnwyd cwestiynnau ynghylch mesur blaenoriaethau'r Bartneriaeth (sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol), a nodi unrhyw anghenion lleol newydd neu ychwanegol.**

- Gofynnodd Cynghorydd Euryn Morris ym mha ffyrdd mae blaenoriaethau’r Bartneriaeth ar gyfer 2025/26 yn adlewyrchu anghenion lleol Ynys Môn yn llawn, yn seiliedig ar dystiolaeth a data diweddar? Atebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, fel mae’n nodi yn yr adroddiad, mae eu blaenoriaethau wedi’u selio ar Strategaeth y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel. Gweledigaeth y bwrdd yma yw bod Gogledd Cymru yn lle diogel a chynhwysol i fyw, gweithio ynddo ac ymweld. Pwrpas y Bwrdd rhanbarthol yw cydweithio i gyflawni’r weledigaeth hon, drwy fynd i’r afael â throseddu ac anhrefn ar draws y rhanbarth. Sail y Strategaeth yw’r asesiad strategol gan yr heddlu, sydd yn adrodd ar risg a bygythiadau gan feysydd trosedd sydd yn effeithio Gogledd Cymru, a prif amcan y ddogfen yw hysbysu'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau strategol a gosod blaenoriaethau. Mae cynllun Trosedd Comisiynydd yr Heddlu hefyd yn llywio’r meysydd yma, ac mae’n seiliedig ar ymgynghoriaeth fanwl gyda’r cyhoedd. Felly, mae Strategaeth y Bwrdd Rhanbarthol yn gosod fframwaith flaenoriaethu i holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol y

rhanbarth, ac maent yn adrodd ar eu gwaith bob chwarter i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'n gyfrifoldeb arnynt i gytuno ar eu camau gweithredu penodol eu hunain mewn ymateb i angen lleol. Gan fod yr holl flaenoriaethau a gweithredoedd yn seiliedig ar dystiolaeth, data ac ymgynghori gyda'r cyhoedd, dywedodd Daron Owens eu bod yn hyderus eu bod yn adlewyrchu anghenion lleol Ynys Môn yn llawn, ond yn hollol agored i dderbyn awgrymiadau ar unrhyw feysydd sydd ar goll.

- Gofynnodd Cynghorydd Euryn Morris sut mae'r Bartneriaeth yn mesur effeithiolrwydd ei gweithgarwch wrth leihau trosedd ac anhrefn ar yr Ynys? Atebodd Daron Owens ei bod hi'n hanfodol bod strategaethau a gweithgareddau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar, ac yn cael eu gyrru gan dystiolaeth. Mae dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu galluogi i sicrhau dealltwriaeth gywir o dirwedd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd, a'r problemau a'r materion y dylid eu blaenoriaethu. Mae'r dystiolaeth yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa weithgareddau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol wrth leihau ac atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i ddeall os yw eu hymyriadau yn gweithio'n ymarferol. Mae'r dystiolaeth maent yn ei hystyried yn cymryd sawl ffurf, er enghraifft - data trosedd, y cyfnewid o wybodaeth strategol a mewnwelediad rheolaidd a rennir gan yr awdurdodau cyfrifol gwahanol, y gymuned leol, ac ymchwil academaidd ar beth sydd yn gweithio. Mae ganddyn nhw ddadansoddwr partneriaeth, fel y gellir darparu data trosedd rheolaidd i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r Heddlu hefyd yn edrych ar ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau plismona ar waith i fynd i'r afael arnynt. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r data'n newid yn aml iawn ac mae'r Heddlu'n ymateb iddo bob wythnos i nodi a deall unrhyw gynnydd a rhoi mesurau ar waith os oes angen. Nododd Daron eu bod yn cadw ffocws clir ar gyflawni a rhoi gweithredoedd ar waith, a mesur ei effaith drwy ymgorffori dull lle mae gan ein cynllun weithgareddau a chanlyniadau clir a chysylltiedig fel bod modd mesur a monitro effeithiolrwydd y ffrwd gwaith eang sydd ganddyn nhw.

**Gofynnwyd cwestiynnau ynghylch asesu effeithiolrwydd y bartneriaeth statudol yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.**

- Gofynnodd Cynghorydd Euryn Morris pa mor effeithiol yw'r cydweithio rhwng yr asiantaethau statudol (Heddlu, Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub, ac eraill) wrth gyflawni'r amcanion? Dywedodd Daron Owens ei bod yn statudol i gael Partneriaeth Diogelwch Cymunedol mewn lle, yn unol â'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r syniad tu ôl i hyn yw bod trosedd yn broblem i bawb nid dim ond yr heddlu. Maent yn dod a gwasanaethau lleol at ei gilydd i fynd i'r afael a throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y prif gyfrifoldeb yw i'r gwasanaethau cyfrifol wneud pob dim y gallent yn rhesymol wneud i atal trosedd ac anrhefn a datblygu cynlluniau i wneud hyn. Maent yn gweithredu ar yr egwyddor nad oes gan unrhyw asiantaeth sengl yr holl alluoedd ar gyfer lleihau ac atal troseddu, a bod ymateb lleol effeithiol yn

gofyn am ymateb cymunedol cydlynol gan asiantaethau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r problemau maent yn ceisio eu datrys yn aml yn gymhleth, a bydd gan bob un o'r sefydliadau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth eu blaenoriaethau sefydliadol, eu pwysau a'u cyfyngiadau. Rôl y bartneriaeth yw gweithio ar draws y ffiniau a'r rhwystrau yma i bennu a gyrru blaenoriaethau a gweithgareddau yn eu blaen. Mae llwyddiant yn ddibynnol ar bartneriaid y Bartneriaeth i wneud ymdrech i flaenoriaethu dull lle maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarn ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. Dywedodd Daron ei bod yn hyderus bod y cydweithio yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau hyn a hefyd yn cyfarch y dyletswyddau statudol sydd arnynt. Diolchodd Cynghorydd Euryn Morris am yr ymateb, pryderodd am y data sydd yn cael ei ddefnyddio, dywedodd y bysai'n hapusach os fysai'n dweud 'data Ynys Môn'. Hoffai weld dashfwrdd i weld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn gweld gwahaniaeth. Derbyniodd Daron y pwynt a chadarnhaodd ei bod am ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.

**Gweithred 1:**
Cynwys ddangosfwrdd yn yr adroddiad blynyddol nesaf i fesur a dangos cynnydd ac effaith prosiectau a weithredwyd, gan gymharu perfformiad o ddechrau i ddiwedd y flwyddynà Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Mon.

- Gwerthfawrogodd y Prif Weithredwr yr holl wybodaeth gynhwysfawr a gafodd ei rannu gyda'r Pwyllgor. Dywedodd eu bod yn cael data cyfrinachol gan yr Heddlu yn rheolaidd. Mae'r blaenoriaethau yn cyfarch yr anghenion ac mae yno wahaniaethau, ac mae'r rhaglen waith yn cyfateb i hynny. Llawer o waith yn ddibynnol ar grantiau. Angen dilyn y prosesau i sicrhau fod grantiau yn dod. Derbyniodd Cynghorydd Ken Taylor y pwynt ynglŷn â'r data. Dywedodd ei fod bron yn sicr bod y Prif Arolygwr wedi adrodd ar ffigyrau yng Nghyngor Tref Ynys Môn yn ddiweddar, a'u bod yn galonogol.
- Dywedodd Gynghorydd Non Dafydd ei bod wedi gwrando ar y pwyslais ataliol. Mynegodd fod cleifion Benllech, Llanfairpwll, Biwmares, Gwalchmai er enghraifft am golli mynediad at wasanaethau Therapi Galwedigaethol oni bai fod yno ddarpariaeth amgen yn cael ei wneud. Gofynnod pa effaith fydd colli'r ddarpariaeth yna yn cael? Ymatebodd Daron Owens ei bod ddim yn ymwybodol o hyn cyn y cyfarfod hwn a'i bod am godi efo'r bwrdd mewn ychydig o wythnosau. Bwriedir darparu diweddariad ar ôl 7 Tachwedd.

**Gweithred 2:**
Darparu ddiweddariad i Aelodau'r Pwyllor yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 7 Tachwedd ynghylch y gostyngiadau arfaethedig i wasanaethau Therapi Galwedigaethol [OT's] ar draws yr Ynys oherwydd cyfyngiadau ariannuà Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Mon.

**Gweithred 3:**
Y Prif Weithredwr i ymgysylltu â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Deiliaid Portffolio perthnasol i sicrhau bod pryderon ynghylch effaith y gostyngiadau arfaethedig i wasanaethau Therapi Galwedigaethol [OT's] ar draws sawl meddygfa ar Ynys Môn yn cael eu hadlewyrchu yn y broses ymgynghori.

- Nododd Gynghorydd Sonia Williams fod cam-drin a thrais yn y cartref yn cynyddu. Gofynnodd am gael esiamplau o’r ymyrraeth gynnar sydd yn digwydd. Atebodd Daron Owens nad ydynt yn derbyn cyllid i fod yn ymyrryd ar brosiectau ond fod y mater yma yn bwysig iawn iddynt. Llawer o waith wedi digwydd er mwyn codi ymwybyddiaeth. Llinell gymorth ar gael i weithwyr proffesiynol, angen codi mwy o ymwybyddiaeth fod hwnnw ar gael. Diwrnod Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd a llawer o waith yn digwydd yn rhanbarthol. Derbyniodd Cynghorydd Sonia Williams y pwyntiau ond hoffai wybod beth sydd yn cael ei wneud i drio arbed y digwyddiad yn hytrach nag beth yw’r camau sydd yn cael eu cymryd ar ôl y digwyddiad. Aml iawn ddim yn cael ei nodi fod cam-drin yn y cartref yn digwydd i ddynion hefyd. Dywedodd Daron Owens fod cyllid trais difrifol wedi’u galluogi i gynnal sesiynau ‘Dynion Wrth Waith’ er mwyn galluogi staff y Cyngor i fod yn hyderus i gael y sgyrsiau.
- Gofynnodd Cynghorydd Pip O’Neill pa gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu pobl sy'n gadael y carchar i ailintegreiddio i'r gymuned, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni hyfforddi a datblygu, yn ogystal â mynediad at lety? Atebodd Daron Owens ei bod yn ofyniad bod Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn dilyn llwybr Llywodraeth Cymru pan fydd rhywun yn gadael y carchar a bod y Gwasanaeth Prawf, Tai a Charchardai yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan berson fynediad at wasanaethau gan gynnwys digartrefedd. Dywedodd ei bod yn ymwybodol bod gan yr adran Tai lwybr ail-sefydlu carcharorion y maent yn gweithredu ar gyfer pob rhyddhäwr carchar sydd wedi mynd i mewn i CEF (HMP) heb breswylfa sefydlog neu ddod o ddim preswylfa sefydlog yn ystod eu dedfryd. Mae dau swyddog Ailsefydlu Carcharorion wedi'u hariannu gan HSG. Maent yn cael eu cyflogi gan Gyngor Sir Ynys Môn ac yn gweithio o'r Tîm Cymorth Tai mewnol. Mae'r Gwasanaeth Tai yn gweithio yn agos iawn gyda chydweithwyr yr Heddlu a Phrawf. Un o'r prif nodau yw lleihau aildroseddu a hyn trwy ddarparu cymorth llety ochr yn ochr â chymorth emosiynol a lles. Mae’r swyddogion Ailsefydlu Carcharorion yn mynd i garchardai i gynnal yr asesiadau tai angenrheidiol. Gallent hefyd fanteisio ar gysylltiadau fideo. Nod hyn yw lleihau'r risg o ddigartrefedd a chyflawni cynllun llety da wrth iddynt gael eu rhyddhau. Bydd gan bob unigolyn gynllun cymorth ar waith ac mae hyn yn cynnwys mynediad at hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth. Maent yn gweithio gyda DWP a Môn CF i sicrhau cymorth cyflogaeth. Roedd Digartref Cyf yn llwyddiannus gyda chais y Loteri Ddigartrefedd Wledig ac mae ganddynt 2 swyddog sydd yn cefnogi’r swyddogion Ailsefydlu Carcharorion yn eu gwaith. Maent hefyd yn cefnogi mynd â phobl sy'n gadael y carchar i apwyntiadau iechyd, cyfarfodydd prawf a llawer mwy. Mae rhai achosion yn gymhleth ac yn anhrefnus, yn aml yn gofyn am asiantaethau eraill i gefnogi - er enghraifft, Plant, Gwasanaethau Oedolion, CMHT, a’r Banc Bwyd. Ar hyn o bryd maent yn gweithio ar beilot o'r grŵp Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru a Phrawf. Mae ganddyn nhw 11 nominal ar IOM, a nod y peilot yw sicrhau cartref parhaol ar ôl eu rhyddhau. Mae astudiaethau wedi dangos bod llety o ansawdd yn lleihau'r risgiau o aildroseddu. Maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill os oes ganddyn nhw ryddhäwr carchar sydd â chyfyngiadau i beidio â dychwelyd i'r Ynys. Er bod yr achosion hyn yn lleiafrif, maent yn anodd eu rheoli oherwydd bod y llety yn gorfod bod y tu allan i'r sir. Ychwanegodd

Elliw Llŷr fod 50 uned ar gael ar gyfer pobl sydd yn gadael carchar. Mae cymorth budd-daliadau ar gael a 6 uned o letyau wedi'u cefnogi. Hoffai gyfleu fod Pennaeth y Gwasanaeth Prawf wedi disgrifio'u perthynas a'r Cyngor fel un ardderchog.

- Holodd Cynghorydd Douglas Fowlie os oes yno gefnogaeth ar gyfer unigolion sydd ddim yn cael dychwelyd i'w cartref teuluol, ac os yw'r rheolau 'run peth i ferched a dynion. Atebodd Elliw Llŷr wrth ddweud os yw rhywun yn gwneud cais am gymorth mae yno ddyletswydd arnynt i ddarparu eiddo addas ar eu cyfer. Gallai'r gwasanaeth gyd-weithio efo'r unigolyn wedi hynny. Caiff merched a dynion eu trin yn gyfartal.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi fod y Pwyllgor Sgriwtini yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2025/2026

Adroddiad y Rheolwr Craffu sy'n nodi blaen raglen waith dangosol y Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2025/2026, a gyflwynwyd i'w ystyried.

Cyfarfod 13 Tachwedd yn canolbwyntio ar faterion Addysg.

Cyfarfod 26 Tachwedd yn canolbwyntio ar Iechyd.

**PENDERFYNWYD cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r blaen raglen waith ar gyfer 2025/2026 a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

Diolchodd y Cadeirydd yn arbennig i'r Rheolwr Sgriwtini, Anwen Davies am ei gwaith rhagorol ar hyd y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddi gyda'i ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40pm.

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13.11.25 |
| **Pwnc:** | **Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Deilydd Portffolio ar gyfer Addysg |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Aaron Evans | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

- I wneud disgwyliadau Llywodraeth Cymru o awdurdodau lleol yn glir mewn perthynas â chyfrannu at wella ysgolion, yng nghyd-destun canllawiau cenedlaethol a fydd yn dod yn statudol cyn bo hir.

- I sicrhau fod yr wybodaeth a gyflwynir ar ddisgwyliadau mewn perthynas â gwella ysgolion cenedlaethol yn gyfredol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini:
**A1** Ystyried goblygiadau'r canllawiau cenedlaethol a'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol i gyfrannu at wella ysgolion – yn arbennig y rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini.
**A2** Nodi swyddogaeth allweddol y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio (fel y sgriwtini dynodedig ar gyfer materion addysg) i ganolbwyntio ei weithgarwch sgriwtini (drwy'r Panel Craffu/Sgriwtini) ar fesur effaith y gefnogaeth a ddarperir i ysgolion gan y Gwasanaeth Dysgu.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae wedi'i alinio'n uniongyrchol â'r blaenoriaethau yr amlinellir yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 newydd Cyngor Sir Ynys Môn – y nodir un ohonynt fel 'Addysg - sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol'.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Sut mae'r canllawiau yn tanategu datblygiad parhaus y system hunan-wella
2. Rôl aelodau etholedig y Pwyllgor Sgriwtini yn y canllawiau gwella ysgolion newydd
3. Beth yw rôl yr Awdurdod Lleol mewn cefnogi gwelliant ysgolion
4. I ba raddau mae'r canllawiau'n cefnogi'r ymrwymiad i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae'r Canllawiau Gwella Ysgolion yn sefydlu system gymesur, dan arweiniad yr ysgol ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd sy'n blaenoriaethu dilyniant a llesiant dysgwyr, a gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r diwylliant wedi symud o atebolrwydd uchel, i brosesau hunan-arfarnu sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyson a gonest.

Cyflwynwyd y canllawiau i alinio'r system â'r Cwricwlwm i Gymru a threfniadau asesu newydd. Adlewyrchir hyn yn y symudiad o gydymffurfiaeth a beirniadaeth i fodel cynaliadwy, dan arweiniad yr ysgol, sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Cawsant hefyd eu cyflwyno i greu disgwyliadau cydlynol ar draws ysgolion, yr Awdurdod Lleol, ac Estyn fel bod pob haen yn gweithio ynghyd i gefnogi diwygio'r cwricwlwm.

Pan cyhoeddwyd y Canllaw yn wreiddiol roedd yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar gymorth ar gyfer ymddygiad, lles emosiynol a meddyliol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, presenoldeb, adnoddau dynol, cyllid, adeiladau, datblygu'r Gymraeg a chomisiynu cefnogaeth dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, a cynllunio cwricwlwm. Yn dilyn y newid i'r gyfundrefn yn Haf 2025, mae'r cefnogaeth ar gyfer dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, cynllunio cwricwlwm, dysgu proffesiynol yn dod yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol bellach.

Negeseuon allweddol:

1. Mae arfarniad yn barhaus ac wedi'i arwain gan yr ysgol: mae'n rhaid i hunan-arfarniad ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth lluosog gan gynnwys cynnydd o'r waelodlin, teithiau dysgu, craffu ar waith a llais y disgybl, ac mae'n rhaid iddo ddadgyfuno fesul grŵp allweddol a llwybr iaith.

2. Y meysydd holl-gyffredinol ar gyfer hunan-arfarnu mewn ysgolion yw:
    - gweledigaeth ac arweinyddiaeth
    - cwricwlwm, dysgu ac addysgu
    - llesiant, ecwiti a chynhwysiad.
3. Mae gwelliant yn ganolbwyntiedig ac yn gyhoeddadwy: mae pob ysgol yn cynhyrchu un Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) cryno gyda nifer fach o flaenoriaethau mesuradwy, arweinyddion a enwyd, adnoddau, amserlenni a meini prawf llwyddiant. Mae'n rhaid cyhoeddi crynodebau CDY, ac mae enghreifftiau da o'r rheiny ar yr ynys.
4. Mae atebolrwydd yn gymesur ac yn seiliedig ar risg: gall y Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion eu hunain gyfryngu cymorth wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion ysgolion. Mae'n ofynnol o hyd i'r Awdurdod Lleol sicrhau safonau uchel. Mae arolwg gan Estyn yn gweithredu fel mesur diogelwch o fewn system gefnogol.
5. Mae gweithio cyfoed i gyfoed yn ganolog yn y system newydd: mae cefnogaeth ysgol i ysgol ac arweinwyr system yn darparu adeiladu capasiti, herio dwyochrog a dysgu proffesiynol ar draws clystyrau.
6. Defnyddio sail dystiolaeth gymysg, nid mesur sengl: dylai penderfyniadau, uchafiad a chefnogaeth fod yn seiliedig ar dystiolaeth feintiol ac ansoddol trionglog, gan bwysleisio ar ddilyniant.
7. Tryloywder a llais y rhanddeiliad: dylai dysgwyr, rhieni a chymunedau lywio gwerthusiad.

Mae arweinwyr strategol yn y Gwasanaeth Dysgu yn gyfrifol am gyfryngu a chydlynu cefnogaeth bwrpasol i ysgolion yn seiliedig ar eu hanghenion a'u blaenoriaethau wedi'u gwerthuso - gwneir penderfyniadau o'r fath ochr yn ochr â'r penaethiaid. Bydd uwch reolwyr yn y gwasanaeth, ochr yn ochr ag arweinwyr ysgol mewn rhai achosion, yn darparu her adeiladol allanol i hunan-arfarniadau a chynlluniau datblygu ysgol. Mae ein harweinwyr system, penaethiaid ein hysgolion, yn arwain ac yn galluogi gweithgareddau cyfoed i gyfoed, gan sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei thargedu a'i chofnodi. Mae gweithgareddau cyfoed i gyfoed ac ysgol i ysgol yn hanfodol ar gyfer adeiladu capasiti a dysgu proffesiynol, rhannu ymarfer effeithiol, a lleihau dibyniaeth ar ymyrraeth ganolog. Mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiadau tymhorol gyda phenaethiaid ysgolion i asesu cynnydd, adnabod risg a sbarduno uchafu cymesur lle bo angen. Caiff y gwaith hwn ei gofnodi, ac adroddir ar gynnydd ysgolion i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol.

Cyrff llywodraethol yw'r cyrff atebol ar gyfer eu hysgolion ac maent yn goruchwylio'r broses werthuso a gwella. Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl strategol allweddol ac yn cytuno ar nodau strategol yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddol yn gyfrifol am arweinyddiaeth, cyfarwyddiaeth a rheolaeth yr ysgol o fewn y nodau strategol hynny. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth a rheolaeth mewnol, ac am gynghori ar y nodau strategol a'u gweithredu.

Mae Estyn yn chwarae rôl atebolrwydd allweddol yn y system newydd. Mae gweithgareddau arolygu yn cael eu defnyddio i ddarparu sicrwydd annibynnol o safonau ac i lywio blaenoriaethau gwella cenedlaethol. Fel yr arolygydd addysg cenedlaethol, maent

hefyd yn cefnogi'r system ysgolion drwy gyhoeddi tystiolaeth, ymarfer gorau, adroddiadau thematig, etc.

Ar gyfer aelodau etholedig a'r sawl sy'n aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini, mae'r canllawiau newydd yn pwysleisio eu swyddogaeth allweddol mewn canolbwyntio sgriwtini ar effaith y gefnogaeth gan y Gwasanaeth Dysgu – ddaw hyn trwy'r Panel Craffu. Dylid hefyd nodi y dylai'r aelodau etholedig gynnal gwahaniad strategol o'u rolau llywodraethwr gweithredol wrth ddefnyddio mewnwelediad llywodraethwr i lywio sgriwtini.

**7. Asesiadau effaith**

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Asesiad effaith Llywodraeth Cymru ar y canllawiau gwella ysgolion (https://www.llyw.cymru/canllawiau-gwella-ysgolion-asesiad-or-effaith-html). Gallai hefyd gynnwys y canlynol:

Effeithiau cadarnhaol:

- Gwell mynediad a chynhwysiad pan fo hunan-arfarniad yn adnabod rhwystrau a wynebir gan grwpiau a warchodir yn eglur ac mae cynlluniau gweithredu'n cael gwared â'r rhwystrau hyn.
- Cefnogaeth wedi'i thargedu'n well lle mae cynllunio gwelliant wedi'i arwain gan ddata yn amlygu bylchau cyrhaeddiad ar gyfer grwpiau megis disgyblion ag anableddau neu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gan alluogi ymyraethau wedi'u teilwra.

Effeithiau negyddol posib:

- Gwaethygu bylchau cyrhaeddiad os yw mesurau gwella yn dibynnu ar dybiaethau am fynediad at adnoddau heb addasiadau ar gyfer disgyblion difreintiedig.

Mesurau lliniaru i ysgolion:

- Defnyddio data wedi'i ddadgyfuno i adnabod bylchau ar gyfer grwpiau gwarchodedig a monitro effaith gweithredoedd gwella ar y grwpiau hynny.
- Ymgorffori addasiad a hygyrchedd rhesymol i mewn i gynllunio cwricwlwm, dulliau asesu, a chymorth llesiant fel nad yw newidiadau yn creu rhwystrau i ddisgyblion ag anableddau.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Asesiad effaith Llywodraeth Cymru ar y canllawiau gwella ysgolion (https://www.llyw.cymru/canllawiau-gwella-ysgolion-asesiad-or-effaith-html). Gallai hefyd gynnwys y canlynol:

Effeithiau negyddol posib:

- Lledu bylchau cyrhaeddiad os yw gweithredoedd yn tybio bod cefnogaeth yn y cartref neu fynediad digidol yn gyfartal.
- Mynediad gostyngol at gyfoethogiad pan fo gweithgareddau yn gofyn am daliad, cludiant neu offer.
- Ymgysylltiad yn fwy gwan oherwydd bod dulliau ymgynghori/ymgysylltu yn tangynrychioli teuluoedd incwm isel.

Effeithiau cadarnhaol allweddol:

- Cefnogaeth wedi'i thargedu sy'n cael ei gyrru gan ddata wedi'i ddadgyfuno (tiwtora dal i fyny, mentora).
- Ffocws ecwiti ysgol gyfan gydag amcanion clir yn y Cynllun Datblygu Ysgol.
- Cydweithio cryfach ar draws ysgolion i gronni adnoddau a chymorth arbenigol.

Gweithredoedd lliniaru i ysgolion:

- Ychwanegu amcanion cymdeithasol-economaidd eglur yn y Cynllun Datblygu Ysgol gyda meini prawf mesuradwy.
- Dadgyfuno ac adolygu data yn dymhorol ar gyfer dysgwyr difreintiedig.
- Clustnodi cyllid/amser staff ar gyfer ymyraethau wedi'u targedu.
- Defnyddio llwybrau ymgysylltu lluosog i gynnwys teuluoedd incwm isel mewn cynllunio.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys effeithiau posib ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, gallant gynnwys y canlynol:

Peidio â sylwi ar leihad posib yn y defnydd o'r Gymraeg os nad yw monitro yn cael ei ddadgyfuno fesul llwybr iaith/continwwm.

Posibilrwydd o gryfhau darpariaeth Gymraeg drwy gynnwys mesurau iaith mewn hunan-arfarniad a'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Gweithredoedd lliniaru i ysgolion:

- Dadgyfuno data fesul llwybr iaith ac adolygu'n dymhorol.
- Ychwanegu amcanion/targedau cydraddoldeb Cymraeg clir yn y Cynllun Datblygu Ysgol ac arweinyddion a enwyd, gan eu gwneud yn eglur, eu costio, eu monitro a'u hamddiffyn ym mhob penderfyniad gwella.

7.4 Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Positif / Niwtral / Negyddol a sut?

Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru'n cynnwys effeithiau posib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor.  Fodd bynnag, gallant gynnwys y canlynol:

Mae effeithiau cadarnhaol posibl yn cynnwys:

- Cyfleoedd i fewnblannu dysgu carbon isel drwy gynllunio cwricwlwm a blaenoriaethau gwella ysgol sy'n pwysleisio ar gynaliadwyedd, sgiliau gwyrdd a newid ymddygiad.
- Economïau o raddfa drwy gydweithredu lleol: gellir dylunio gweithgareddau gwella ar y cyd i leihau teithio (DPP rhithiol, digwyddiadau clwstwr).
- Newidiadau ymddygiad drwy ddulliau gweithredu ysgol gyfan (teithio gweithredol, llai o argraffu) wedi'u gyrru gan fonitro gwelliant a blaenoriaethau llesiant.

Mae effeithiau negyddol posibl yn cynnwys:

- Cynnydd yn y defnydd o ynni mewn ysgolion os yw gweithredoedd gwella yn arwain at oriau estynedig, e.e., swyddogaethau cymunedol y tu allan i oriau ysgol rheolaidd.
- Allyriadau teithio uwch oherwydd hyfforddiant staff, gweithio ysgol i ysgol, mwy o ymyraethau rhiant/disgybl, cyfarfodydd neu weithgareddau cyfoethogi.

Gweithredoedd lliniaru i ysgolion:

- Adnabod arweinydd cynaliadwyedd ysgol sydd ynghlwm â thîm y Cyngor.
- Rhagosod i ddysgu proffesiynol rhithiol neu leol a digwyddiadau clwstwr.

**8. Goblygiadau ariannol**

Nid yw'r adroddiad yn adnabod unrhyw oblygiadau ariannol penodol ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

**9. Atodiadau**

https://hwb.gov.wales/gwella-ysgolion-ac-arweinyddiaeth/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/

https://www.llyw.cymru/canllawiau-gwella-ysgolion-asesiad-or-effaith-html

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir**

Aaron C Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Euros Davies, Arweinydd Strategol (Uwchradd)

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Tachwedd 2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol yn cyflwyno'r adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gwilym O Jones | Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Y Cynghorydd Dafydd Roberts | Aelod Portffolio - Addysg a'r Gymraeg |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Aaron Evans | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Er mwyn nodi cynnydd a darparu sicrwydd

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

☒ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:
**A1** Nodi cynnydd gwaith y Panel Sgriwtini Addysg yn ystod y cyfnod diwethaf.

## 4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor: 2023-2028.
Addysg yw un o'r chwe amcan strategol allweddol (Cynllun y Cyngor 2023-2028), sef - sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Ystyrir bod rôl Aelodau Etholedig yn hanfodol wrth wireddu'r nod hon trwy graffu a dal i gyfrif.
Mae gwaith y Panel Sgriwtini Addysg yn cyfrannu at y nod hon.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Effaith blaen raglen waith y Panel Sgriwtini yn erbyn Cynllun y Cyngor.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

2. Meysydd allweddol lle gellir cryfhau gwaith y Panel Sgriwtini.
3. Effeithiolrwydd y Sesiynau Gwaith Maes yn erbyn canlyniadau'r Panel Sgriwtini.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. CRYNODEB**

**1.1** Bydd Aelodau'n ymwybodol o sut mae panelau sgriwtini'n cyfrannu at drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

- Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol
- Panel Sgriwtini Adnoddau
- **Panel Sgriwtini Addysg**

**1.2 Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

i. Cadarnhaodd y Pwyllgor Sgriwtini[1] gylch gorchwyl y Panel a luniwyd i greu'r amodau i ehangu ei gyfrifoldebau gwaith ac mae'n cynnwys y manteision allweddol canlynol:
ii. Datblygu model o weithio ym maes Addysg sy'n canolbwyntio ar grŵp llai o Aelodau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar themâu penodol er mwyn i Aelodau gyfranogi mwy, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac annog presenoldeb da a gwaith tîm.
iii. Cryfhau capasiti Aelodau i herio perfformiad ymhellach trwy wella ansawdd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth gyffredinol o ddata perfformiad ysgolion.
iv. Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â risgiau Gwasanaeth fel sail i flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.
v. Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau sydd ag arbenigedd a pherchnogaeth er mwyn arwain trafodaethau ynglŷn â materion Addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd ar waith fel sail i waith y Panel.[2]

Rhoddwyd trefniadau ar waith hefyd i adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio trwy Gadeirydd y Panel, y Cynghorydd Gwilym Owen Jones. Mae rhestr o aelodau'r Panel ynghlwm (Atodiad 1).

**2. CANOLBWYNTIO AR WAITH Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

Hwn yw chweched adroddiad cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg ac mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng Chwefror 2025 a Hydref 2025.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o'n trefniadau Sgriwtini, a gomisiynwyd yn haf 2024, datblygwyd Cynllun Gwella oedd yn amlinellu pum thema allweddol i weithredu arnynt.

Roedd thema 4 yn amlygu'r angen am strwythur symlach a mwy hyblyg ar gyfer Sgriwtini. Mae hyn yn cynnwys sicrhau gwell cydbwysedd rhwng cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, gan ganiatáu amser ar gyfer sesiynau gwaith maes sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau amserol, strategol sy'n alinio â Chynllun y Cyngor; gyda phwyslais ar graffu ar sail tystiolaeth er

[1] Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 16 Medi 2025
[2] Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017.

mwyn cefnogi'r Gwasanaeth Dysgu a sicrhau atebolrwydd. Mae sicrhau fod llais y dysgwr yn parhau'n llinyn arian drwyddi draw wrth galon y dull newydd hwn.Yn ystod y cyfnod a nodwyd, cyfarfu'r Panel yn ffurfiol dair gwaith, a chynhaliwyd cyfres o sesiynau gwaith maes rhwng y sesiynau ffurfiol[3]. Ystyriwyd y materion canlynol:

**2.1 Cwricwlwm i Gymru:**

Ym mis Chwefror[4] cafodd y Panel gyfle i gymryd rhan mewn gwaith maes trwy ymweld ag ysgol gynradd a chanolbwyntiwyd ar y thema canlynol→Cwricwlwm i Gymru. Yn ystod y sesiwn gwaith maes, daeth Aelodau'r Panel i ddeall mwy am y cwricwlwm newydd i Gymru, a luniwyd dan arweiniad Graham Donaldson, gan asesu cynnydd y cwricwlwm newydd yn y Sector Cynradd trwy weld enghreifftiau ymarferol o'r ystafell ddosbarth a gyflwynwyd gan ddisgyblion yr ysgol. Roedd y Panel yn gallu nodi a deall sut mae'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau yn y chwe Maes Dysgu. Mae'n pwysleisio meddwl yn feirniadol, datrys problemau, llesiant, creadigrwydd, gan geisio meithrin dysgwyr gydol oes actif ac effro.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod gweithredu'r cwricwlwm newydd yn cynnig nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i fod yn alinio ag athroniaeth addysgol yr ysgol, sydd â chynhwysiant wrth ei wraidd.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i integreiddio'r cwricwlwm newydd drwy amrywiaeth o brosiectau gwahanol, gan ymgorffori'r sgiliau trawsgwricwlaidd isod:

i. Llythrennedd ac Ieithoedd
ii. Ecoleg
iii. Hanes
iv. Mathemateg a Rhifedd
v. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
vi. Digidoleiddio
vii. Daearyddiaeth
viii. Datrys problemau.

Canolbwyntiwyd yn benodol ar yr agweddau canlynol:

- Amlygu arferion gorau'r ysgol wrth roi'r cwricwlwm ar waith.
- Pwysigrwydd Llais y Dysgwr trwy gyfrwng enghreifftiau ymarferol a gyflwynwyd gan y disgyblion.

**Canlyniadau:**

i. Mesur cynnydd lleol wrth gyflwyno'r Cwricwlwm newydd. Canolbwyntio'n benodol ar y Sectorau Cynradd ac Uwchradd a datblygiadau yn ystod y cyfnod pontio.
ii. Nodi arfer dda'r ysgol wrth roi'r Cwricwlwm newydd ar waith trwy gyfrwng enghreifftiau yn yr ystafell ddosbarth.

---

[3] Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol o'r Panel Sgriwtini Addysg ar 27/03/2025, 24/06/2025, 24/09/2025
Cynhaliodd y Panel Sgriwtini Addysg sesiynau gwaith maes ar 20/02/2025, 08/09/2025, 09/09/2025, 10/09/2025

[4] 20/02/2025

**2.2 Hunanwerthuso Effaith y Panel Sgriwtini Addysg:**

Yn y cyfarfod ffurfiol ym mis Mawrth[5], gwahoddwyd Aelodau'r Panel i drafod a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y Panel Sgriwtini Addysg trwy gynnal hunanasesiad, gan ddefnyddio'r cwestiynau craidd canlynol fel canllaw:

**Cwestiynau hunanasesu craidd**

**1.** Beth oedd uchafbwyntiau'r Panel Sgriwtini Addysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

**2.** Yn eich barn chi, beth oedd effaith y Panel Sgriwtini Addysg yn ystod 2024/25 wrth gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith?

**3.** Pa agweddau o Raglen Waith y Panel Sgriwtini Addysg fyddai'n bosib eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol yn y dyfodol?

**4.** Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cynorthwyo yn y rôl fel Aelod o'r Panel Sgriwtini Addysg?

**5.** Unrhyw sylwadau cyffredinol ynglŷn â dylanwad a / neu effaith gwaith y Panel Sgriwtini Addysg mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau?

Amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Nododd Aelodau fod y meysydd i'w gwella'n cynnwys yr angen am graffu mwy trylwyr gan ganolbwyntio ar feysydd pryder a bod angen trefniadau dilyn i fyny mwy cadarn er mwyn sicrhau trosolwg effeithiol.
- Mynegodd yr Aelodau awydd i gymryd rhan mewn mwy o waith ymarferol fel Panel, gan geisio sicrhau fod eu hymdrechion yn cael effaith uniongyrchol, a'u bod yn dylanwadu'n ystyrlon ar y broses gwneud penderfyniadau.

**Canlyniadau:**

i. Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant er mwyn cefnogi gwelliant parhaus a datblygu dealltwriaeth o fframwaith arolygu newydd Estyn.

ii. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd bod â chylch gwaith eglur ar gyfer pob darn o waith, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth a chylch gorchwyl y Panel, er mwyn asesu p'un a yw'r amcanion yn cael eu gwireddu.

**2.3 Pontio Effeithiol → parodrwydd i ddysgu**

Yn ystod cyfarfod ffurfiol o'r Panel Sgriwtini Addysg ar 24 Mehefin, cyflwynwyd trosolwg cynhwysfawr i Aelodau ar Bontio Effeithiol→ parodrwydd i ddysgu, er mwyn paratoi ar gyfer y gyfres nesaf o sesiynau gwaith maes a drefnwyd i'w cynnal mewn gwahanol ysgolion[6] yn ystod mis Medi 2025. Canolbwyntiwyd yn benodol ar yr agweddau canlynol:

- Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion greu a chyhoeddi cynllun pontio cydweithredol er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022.

- Mae'n rhaid i gynlluniau roi lle canolog i'r dysgwr, rhoi sylw i gynnydd unigol, llesiant a pharhad dysgu trwy gyfrwng cwricwlwm ac addysgu sydd wedi'i gydlynu ar draws y continwwm 3-16.
- Mae partneriaeth gref rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn

[5] 27/03/2025

[6] Ysgol y Graig Fach, Llangefni, Ysgol Y Tywyn, Caergeiliog, Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

hanfodol, ac mae angen trefniadau cydgysylltiedig ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac asesu o fewn y clwstwr er mwyn sicrhau pontio esmwyth.

- Mae'n rhaid i gynlluniau pontio gynnwys cynigion eglur ar gyfer adolygu a gwerthuso, gan ganolbwyntio eu heffaith ar barhad y dysgu a chynnydd y dysgwr.

Fel rhan o'r sesiynau gwaith maes, cyflwynwyd y gyfres ganlynol o gwestiynau sgriwtini allweddol i aelodau a ddyluniwyd i ddarparu canllaw a chymorth ar gyfer sgriwtini effeithiol:
**2a** I ba raddau mae strategaethau eglur ar waith gan yr ysgol i sicrhau cynnydd addysgol parhaus dysgwyr wrth iddynt symud o'r dosbarth Meithrin i'r dosbarth Derbyn a/neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.
**2b** Pa mor effeithiol mae'r ysgol yn gweithio gydag ysgolion eraill y dalgylch mewn perthynas â phontio?
**2c.** Pa mor agored ac effeithiol yw trefniadau rhannu gwybodaeth ynglŷn â llesiant/anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion wrth iddynt drosglwyddo?
**2d.** Pa mor gyfarwydd yw disgyblion â'u hysgol newydd?

Yn ystod y gwahanol sesiynau gwaith maes, nododd yr Aelodau fod trafodaeth broffesiynol a chyfathrebu cryf yn bodoli ymysg ysgolion yn y dalgylch. Fodd bynnag, nodwyd y gellid datblygu gweithgareddau pontio ychwanegol rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd yn eu dalgylchoedd, os bydd adnoddau ar gael, a derbyniwyd nifer o awgrymiadau gan ddisgyblion oedd yn amlygu pwysigrwydd ymgorffori llais y dysgwr. Nododd yr Aelodau hefyd fod angen bod yn fwy cyson ar draws yr holl ysgolion er mwyn sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion a gyda rhieni, yn enwedig yn wrth drosglwyddo o un ysgol i'r llall (e.e. rhannu dogfennau pro-forma).

**Canlyniadau:**

i. Nodwyd cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau pontio ychwanegol rhwng yr ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd yn eu dalgylchoedd, os bydd adnoddau ar gael. Rhannwyd nifer o awgrymiadau gan ddisgyblion, gan ategu pwysigrwydd cynnwys llais y plentyn wrth gynllunio pontio.
ii. Gwella Cyfathrebu a Rhannu Gwybodaeth: Nododd yr Aelodau bod angen dull mwy cyson ar draws ysgolion er mwyn cryfhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion a gyda rhieni, yn enwedig yn ystod cyfnodau trosglwyddo allweddol rhwng ysgolion.

### 2.4 Diogelu Corfforaethol - cyfraniad ysgolion:

Cyfarfu'r Panel ar 24 Medi i drafod trefniadau Diogelu Corfforaethol, gan ganolbwyntio ar gyfraniad ysgolion. Roedd hyn yn rhan o drafodaeth ar y cyd gyda'r Panel Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ystyried y prif negeseuon oedd yn deillio o graffu ar adroddiadau Diogelu Corfforaethol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.[7] Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn cynnal Ymweliadau Cefnogi Diogelu er mwyn darparu sicrwydd pellach fod ysgolion yn dilyn gweithdrefnau perthnasol, gan ddarparu cefnogaeth lle bod angen, a sicrhau fod diwylliant iach o ddiogelu ym mhob ysgol.
- Cynhelir adolygiadau annibynnol ar y gwasanaeth "Drws Cyntaf".
- Mae'r Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio, maent yn defnyddio dull integredig ac mae perthynas waith gref (fel "un tîm") rhwng y ddau wasanaeth.
- Mae gan bob ysgol arweinydd diogelu dynodedig er mwyn darparu eglurder i rieni a phlant.

[7] Cytunwyd ar bwynt gweithredu yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 14/01/25

- Mae adnabod ac ymyrryd yn gynnar trwy systemau megis “Fy Mhryder” yn caniatáu i staff gymryd camau prydlon.
- Mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff yn cael eu blaenoriaethu ac mae hyn yn cefnogi dull gwybodus am drawma o fewn ysgolion.

**Canlyniadau:**

i. Adolygodd y Paneli Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y prif negeseuon yn deillio o adroddiadau Diogelu Corfforaethol cyn eu cyflwyno i’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.
ii. Canolbwyntiodd y trafodaethau cychwynnol ar rôl y paneli wrth graffu ar yr adroddiadau, a chynhelir cyfarfod dilynol ym mis Rhagfyr er mwyn archwilio cyfraniad ysgolion ymhellach.

**2.5 : Gwella Presenoldeb:**

Yn ystod yr un cyfarfod o’r Panel ar 24 Medi, derbyniodd yr aelodau gyflwyniad manwl ar thema gwella presenoldeb - y maes nesaf a ganolbwyntir arno yn y sesiynau gwaith maes a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2025[8].
Nod y Gwasanaeth Dysgu yw dychwelyd at y targed presenoldeb o 95% oedd ar waith cyn y pandemig. Gosodwyd disgwyliadau ar ysgolion a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda’r sector uwchradd i fonitro a chefnogi cynnydd. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae presenoldeb yn sylweddol is na lefelau cyn y cyfnod clo, ac mae absenoldebau parhaus yn uchel. Mae hyn yn cyd-fynd â’r darlun cenedlaethol. Mae dadansoddi, monitro ac adrodd rheolaidd yn llywio ymyraethau a dargedir ar lefel ysgolion a dysgwyr.
- Mae ymgyrch gyfathrebu wedi cychwyn, dan arweiniad ysgolion, ac mae’n cynnwys fideo ar gyfer ysgolion uwchradd a negeseuon a dargedir ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion a rhieni.
- Mae’r prif heriau’n cynnwys lefelau uchel o absenoldebau salwch, cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ymysg disgyblion, a diffyg dealltwriaeth ymysg rhai rhieni ynglŷn ag effaith hirdymor presenoldeb gwael.
- Bydd cynnwys a negeseuon i gefnogi’r gwaith hwn yn cael ei gwblhau ym mis Chwefror 2026 a bydd yn alinio â chynlluniau strategol er mwyn gwella presenoldeb o fewn y gwasanaeth.

**Canlyniadau:**

i. Arfarnu effeithiolrwydd rôl yr awdurdod lleol wrth gefnogi ysgolion i wella presenoldeb disgyblion. Cyflwynir y canfyddiadau yn adroddiad cynnydd nesaf y Panel Sgriwtini, yn ystod mis Chwefror 2026.

**2.6 Rhaglen waith y Panel Sgriwtini am y cyfnod Chwefror 2025→Hydref 2025**

Adolygwyd y flaen raglen waith ym mhob cyfarfod o’r Panel, gyda’r nod o sicrhau blaen raglen waith gadarn er mwyn cefnogi cyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethu’r Cyngor.

Yn y dyfodol, bydd themâu blaen raglen waith y Panel Sgriwtini Addysg yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau’r Gwasanaeth Dysgu o dan y penawdau canlynol, gan ganolbwyntio ar waith maes:

i. Gweithio tuag at sicrhau cynnydd, cyflawniad a chydraddoldeb addysgol.
ii. Defnyddio dull integredig er mwyn sicrhau tegwch a lliniaru effaith tlodi.
iii. Cefnogi plant, pobl ifanc a staff i fod yn ddiogel, yn iach a gwella eu llesiant.
iv. Sicrhau fod Addysg ar Ynys Môn yn addas i bwrpas ar gyfer cymunedau dysgu yn y dyfodol.

[8] 10/11/2025 - Ysgol Gynradd Rhosybol, 11/11/2025 - Ysgol Gynradd Llangoed, 12/11/2025 - Ysgol Gyfun Llangefni.

Bydd gwaith maes yn ystyrlon ac wedi'i alinio'n agos â rhaglen waith y Panel Sgriwtini Addysg, gan rymuso Aelodau i ymgysylltu â herio'n effeithiol yn ystod cyfarfodydd, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu ein model sgriwtini yn barhaus.

**6. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO ER YSTYRIAETH GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Nid oedd gan y Panel unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amherthnasol

7.2. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Amherthnasol

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Amherthnasol

7.4. Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Amherthnasol

## 8. Goblygiadau Ariannol

Amherthnasol

## 9. Atodiadau

Aelodaeth y Panel Sgriwtini Addysg (Atodiad 1)

## 10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

**Atodiad 1**

# AELODAETH Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG

| Aelod | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Cyng Gwilym Owen Jones (Cadeirydd) | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| Cyng Margaret M Roberts (Is-Gadeirydd) | |
| Cyng Non Dafydd | |
| Cyng Derek Owen | |
| | |
| Cyng Arfon Wyn | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| Cyng Alwen Watkin | |
| Cyng Keith Roberts | |
| Sedd wag- (Annibynwyr Môn) | |

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **13 Tachwedd, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Elin Allsopp | Swyddog Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2025/26
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Amherthnasol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2025

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2025/26 |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
**[Fersiwn dyddiedig 05/11/25]**

Tudalen 29

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mai, 2025 (21/05/2025)-Cyfarfod Ychwanegol** | |
| Canlyniadau'r Ymgysylltiad ar y Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 | |
| Adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Atgyweirio To Adeilad Canolfan Addysg y Bont: Gwersi a Ddysgwyd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Heddlu Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai’r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Prifysgol Bangor |
| Aelodaeth y Panelau Sgriwtini | Aelodaeth y Panelau Sgriwtini |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Menter Môn |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| Canlyniadau’r Ymgynghoriad ar y Cynnig i Adleoli Dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Dysgwyr 11-18 Oed | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu: Achos Amlinellol Strategol (eitem eithriedig) | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| | **Rhagfyr, 2025 (10/12/2025) – Cyfarfod Arbennig** |
| | Gwastraff-teitl i'w gadarnhau |
| | Cynllun Strategol Addysg Ddigidol |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2024/25<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (prynhawn)** | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu - Adroddiad Gwrthwynebu a dod i Benderfyniad Terfynol am Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Chwefror, 2026 (12/02/2026) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | Partneriaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Mon – diweddariad |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | Eitemau Mentrau Cronfa Ffyniant:<br>• Y Gronfa Ffyniant Gyffredin-Mesur Cynnydd<br>• Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU - Cronfa Ffyniant Ynys Môn-Mesur Cynnydd |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026 (22/04/2026)** | **Ebrill, 2026 (21/04/2026)-Taclo Tlodi** |
| | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| | Medrwn Môn |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |

Tudalen 32

**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cynllun Strategol Man-ddaliadau 2025-2030 | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Ardoll Twristiaeth Lleol i Gymru |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Digartrefedd Ynys Môn |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn]- Mesur Cynnydd] (Mehefin / Gorffennaf 2026) |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |